# Arolygiad Dilynol Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)

Ward Llynfi, Ysbyty Cymuned Maesteg, a Ward y Gorllewin, Ysbyty Gorseinon: Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 27 a 28 Chwefror 2018

Dyddiad cyhoeddi: 30 Mai 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@gov.wales**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78937-363-9



© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 8

   Ansawdd profiad y claf ........ 9

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 10

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 19

4. Beth nesaf? ........ 23

5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol ........ 24

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ........ 25

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 26

   Atodiad C – Cynllun gwella ........ 27

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol dirybudd o Ward Llynfi, Ysbyty Maesteg, a Ward y Gorllewin, Ysbyty Gorseinon, ar 27 a 28 Chwefror 2018. Mae'r ddau ysbyty yn ysbytai cymunedol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC.

Ceir manylion pellach am y modd yr ydym yn cynnal arolygiadau dilynol yn Adran 5.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ni nodwyd unrhyw welliannau ar gyfer profiad y claf yn adroddiad 2016 yr oedd angen eu hadolygu. Fodd bynnag, gwnaethom fachu ar y cyfle yn y ddau ysbyty i fynd ar daith o'r wardiau, arsylwi ar ofal cleifion, a siarad â staff, rheolwr y ward a'r dirprwy. Gwelsom fod cleifion yn derbyn gofal gydag urddas ac mewn ffordd amserol a gwnaethom arsylwi ar y staff yn rhoi gofal mewn ffordd barchus a phroffesiynol.

Nodwyd nifer o feysydd i'w gwella yn adroddiad 2016 o ran cyflenwi gofal diogel ac effeithiol. Roeddem wedi ein bodloni bod cynnydd wedi'i wneud mewn nifer o feysydd a nodwyd i'w gwella, yn arbennig yn Ward y Gorllewin, ond roedd rhai agweddau o ran dogfennau a oedd angen ystyriaeth bellach. Ar Ward Llynfi, nodwyd llai o feysydd i'w gwella yn wreiddiol ac felly roeddem yn siomedig i weld nad oedd llawer o'r rhain wedi cael eu gweithredu.

Serch hynny, rhoddwyd sicrwydd i AGIC fod y canlyniadau cyffredinol i gleifion yn effeithiol. Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon bod y strwythur staff yn ddigonol a bod staff ar bob gradd yn gweithio'n ddiwyd i wella darpariaeth y gwasanaeth ac i sicrhau bod cleifion yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u cefnogi.

Canfuom fod yr arweinyddiaeth a rheolaeth yn fwy gweladwy ac effeithiol, yn enwedig yn Ward y Gorllewin. Yn wreiddiol, ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella o ran ansawdd y rheolaeth, ond, ar yr achlysur hwn, mae AGIC wedi gofyn am sicrwydd o ran Ward Llynfi.

Yn ystod yr arolygiad hwn, nodwyd rhai meysydd newydd i'w gwella ac mae AGIC wedi gofyn am sicrwydd o ran statws cymryd camau gweithredu ar y cynlluniau gwella gwreiddiol.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mae Ward y Gorllewin yn gweithio tuag at fodel nyrsio sy’n fwy adsefydlol
- Mae Ward y Gorllewin wedi cymryd camau sylweddol o ran rheoli'r gofod a'r staff sydd ar gael
- Mae gan Ward y Gorllewin arweinyddiaeth a rheolaeth gref
- Mae Ward Llynfi yn datblygu gweithlu staff cryfach
- Mae datblygu, hyfforddi ac arfarnu staff wedi gwella ar y ddwy ward

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Diogelu gwybodaeth cleifion ar y ddwy ward
- Ansawdd y cofnodion gofal ar y ddwy ward, ond arbennig ar Ward Llynfi
- Datblygu strwythurau staffio cryfach a mwy effeithiol ar Ward Llynfi
- Mae angen mynd i'r afael â gwaith ystadau ar Ward Llynfi

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Ward Llynfi yn Ysbyty Maesteg a Ward y Gorllewin yn Ysbyty Gorseinon (sydd ill dau'n ysbytai cymunedol) ar 27 a 28 Medi 2016.

Roedd y meysydd allweddol i'w gwella a nodwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

### Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith

- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau addas i fodloni ei hun fod y staff perthnasol yn glynu at brosesau'r bwrdd iechyd ar gyfer cynhyrchu, gosod a gwirio bandiau adnabod ar arddyrnau cleifion

### Gwelliannau pellach a nodwyd

- Gwaith gan yr adran ystadau
- Cyfathrebu bwletinau iechyd a diogelwch i'r staff
- Dogfennau
- Staffio

Diben yr arolygiad hwn oedd mynd ar drywydd y gwelliannau uchod a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried y maes hwn yn fanwl am nad oedd unrhyw welliannau a nodwyd yn yr adroddiad diwethaf.

Fodd bynnag, roedd arfer clinigol a rhyngweithio rhwng staff a chleifion a welwyd ar y diwrnod yn dangos parch ac urddas ac yn broffesiynol.

Ni nodwyd unrhyw welliannau o ran profiad y claf yn adroddiad 2016 yr oedd angen eu hadolygu. Fodd bynnag, gwnaethom ddefnyddio'r cyfle yn y ddau ysbyty i fynd ar daith o amgylch y wardiau, arsylwi ar ofal cleifion, a siarad â staff, rheolwr y ward (yng Ngorseinon) a'r dirprwyon. Gwelsom fod cleifion yn derbyn gofal ag urddas, mewn ffordd amserol, a gwnaethom arsylwi ar staff yn rhoi gofal mewn ffordd barchus a phroffesiynol.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y ddau dîm ward wedi ymrwymo i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Gwelsom fod Ward y Gorllewin wedi gwneud newidiadau sylweddol i ardaloedd y ward er mwyn gwella diogelwch ar gyfer y cleifion a staff sy'n defnyddio offer symud a thrin.

Roedd offer arbenigol ar gael ac yn cael eu defnyddio yn y ddau ysbyty i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i atal cleifion rhag cwympo.

Roedd y ddau ysbyty yn lân ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio. Gwnaed ymdrechion i gadw'r wardiau'n daclus ond roedd yn amlwg fod prinder gofod storio o hyd ar gyfer offer ar y ward. Roedd Ward y Gorllewin wedi troi ystafell olchi yn ystafell storio, a oedd wedi lleihau faint o offer a oedd yn cael eu storio mewn coridorau ac ystafelloedd ymolchi.

O ran y mater sicrwydd ar unwaith a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf, roedd Ward y Gorllewin wedi gweithredu rhaglen archwilio wythnosol i sicrhau bod bandiau adnabod ar arddyrnau cleifion yn cael eu defnyddio ac yn ddarllenadwy.

Roedd Ward y Gorllewin wedi gweithredu newidiadau i'r broses ddogfennau er mwyn sicrhau bod y gofal a ddarparwyd yn unigol ac yn hyrwyddo annibyniaeth. Roedd angen gwelliannau o hyd o ran dogfennau Ward Llynfi.

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- **Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith**

  Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau addas i fodloni ei hun fod y staff perthnasol yn glynu at brosesau'r bwrdd iechyd o ran cynhyrchu, gosod a gwirio bandiau adnabod ar arddyrnau cleifion.

Ward y Gorllewin, Gorseinon:

- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion ynghylch y cynnydd o ran bodloni'r argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad yn dilyn yr asesiad risg ym mis Ebrill 2015.
- Dylai'r bwrdd iechyd wneud gwelliannau i'r ciwbicl (a nodwyd) er mwyn caniatáu mwy o olau naturiol ac awyru i'r ciwbicl.
- Dylai'r bwrdd iechyd ystyried a oes angen camau gweithredu pellach er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth y staff o ddatrysiadau diogelwch cleifion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n berthnasol i'w maes gofal clinigol.
- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio sut y bydd yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau pe baent yn nodi bod y tymheredd yn yr oergelloedd a ddefnyddir i storio meddyginiaethau y tu hwnt i'r amrediad a argymhellir.
- Mae'n ofynnol i’r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynghylch sut y bydd yn sicrhau bod siartiau rhoi meddyginiaeth yn ddarllenadwy ac yn cael eu cwblhau yn llawn yn y dyfodol.
- Mae’n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas i sicrhau bod awdurdodiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar waith a bod y rhain yn gyfreithiol ddilys.
- Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r model presennol ar gyfer gwaith cyflenwi meddygol yn Ward y Gorllewin a gwneud newidiadau fel y bo'n briodol i sicrhau bod y tîm staff yn gallu cael mynediad at gymorth a chyngor meddygol mewn ffordd effeithiol ac amserol.

Ward y Gorllewin, Gorseinon, a Ward Llynfi, Maesteg:

- Mae'n ofynnol i’r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynglŷn â sut y bydd yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer cwblhau siartiau monitro bwyd i sicrhau bod y nyrs gofrestredig yn ymwybodol o gymeriant maeth y cleifion ac wedi gweithredu ar y wybodaeth honno lle y bo angen.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas i sicrhau bod y wybodaeth ar ei wefan yn gywir.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion gofal cleifion yn dangos anghenion gofal cleifion yn llawn ac yn gywir, y gofal a ddarparwyd gan y timau staff, ac effeithiolrwydd y gofal a ddarperir.

## Y camau a ddywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau canlynol yn ei gynllun gwella:

- **Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith**

  Gwnaed diweddariadau ar y wardiau i sicrhau bod y staff nyrsio yn gyfarwydd â phroses y bwrdd iechyd ar gyfer cynhyrchu, rhoi a gwirio bandiau adnabod ar arddyrnau cleifion. Cynhelir archwiliad bob wythnos er mwyn bwydo i mewn i'r metrigau nyrsio.

Ward y Gorllewin, Gorseinon:

- Mae gosodiad a chapasiti Ward y Gorllewin yn derbyn sylw fel rhan o'r cynllun moderneiddio ar gyfer yr ysbyty. Bydd hyn yn edrych ar yr argymhellion ar gyfer ardaloedd y gwelyau a storio offer. Gweithredwyd ar yr ardaloedd storio yn dilyn asesiad risg 2015.
- Cysylltwyd â'r adran ystadau er mwyn gwneud cais i osod ffenestr newydd yn y ciwbicl hwn i sicrhau bod golau naturiol ac awyru ar gael. Mae'r adran ystadau wedi asesu'r cais ac wedi cytuno i osod ffenestri lefel uchel er mwyn mynd i'r afael â'r angen hwn. Disgwylir i'r gwaith hwn ddechrau'r mis hwn.
- Mae’r holl rybuddion diogelwch bellach yn cael eu cyfathrebu i'r adrannau drwy DATIX ac yn cael eu gweithredu. Bydd yr hysbysfwrdd staff yn arddangos y rhybuddion hyn. Bydd rhybuddion diogelwch yn eitem ar yr agenda mewn cyfarfodydd staff.
- Mae rheolwyr y ward yn mynd i gysylltu â'r fferyllfa er mwyn datblygu canllaw uwchgyfeirio ar gyfer y camau gweithredu gofynnol pan fo'r tymheredd y tu hwnt i'r paramedrau a argymhellir.
- Caiff y siartiau cyffuriau eu harchwilio gan reolwyr y ward. Caiff sesiynau diweddaru gan arweinwyr clinigol eu datblygu ar gyfer yr holl gofrestrwyr mewn perthynas â chwblhau cofnodion rhoi meddyginiaeth.
- Mae rheolwyr y ward yn datblygu taenlen i'w galluogi i dracio ceisiadau ac awdurdodiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid er mwyn sicrhau eu bod ar waith ac yn ddilys. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'r agenda safonol yn y fforwm arweinyddiaeth.

Ward y Gorllewin, Gorseinon, a Ward Llynfi, Maesteg:

- Bydd y siartiau bwyd yn cael eu cydlofnodi gan y nyrs gofrestredig. Bydd rheolwr y ward yn archwilio'r cam gweithredu hwn bob wythnos

i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau i sicrhau bod cymeriant maeth a hylif yn cael ei gynnal.

- Mae prif nyrsys y wardiau yn cysylltu â'r tîm cyfathrebu i sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael ar y fewnrwyd yn gyfredol.
- Mae gan y bwrdd iechyd gynlluniau gofal craidd sydd ar gael i'r holl staff ar system electronig. Mae hyn yn rhan o'r cynllun moderneiddio ar gyfer yr ysbytai ac felly mae'n parhau. Bydd yn mynd i'r afael ag asesu cleifion a chynllunio gofal i sicrhau bod gofal unigol yn cael ei roi i ddiwallu anghenion y claf.

## Yr hyn a ganfuom yn ystod yr arolygiad dilynol

### Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd yn amlwg o'n harsylwadau ar y ddwy ward ysbyty fod prinder gofod storio offer o hyd. Yn sgil cynllun ac oedran yr adeiladau, mae hon yn broblem sy'n parhau, ond mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried storio wrth aildrefnu unrhyw ardaloedd pellach. Ar hyn o bryd ar y ddwy ward, mae ystafelloedd ymolchi neu ardaloedd clinigol yn dal i gael eu defnyddio er mwyn storio trolïau, offer symud a thrin, ac offer monitro cleifion. Nid oedd Ward y Gorllewin yng Ngorseinon yn ymddangos fel pe bai mor llawn o annibendod ag yr oedd Ward Llynfi ym Maesteg, a’r rheswm am hyn oedd bod y ward wedi troi un ystafell olchi yn ystafell storio ers yr arolygiad diwethaf.

Ward y Gorllewin, Gorseinon:

Gwnaethom drafod y newidiadau a oedd ar waith yn dilyn yr adroddiad diwethaf i sicrhau bod gweithdrefnau symud a thrin diogel yn cael eu dilyn gan y staff. Dangoswyd cyfluniad newydd y wardiau i ni. Maent bellach wedi newid o ddwy ardal ward i dri pharth, gan leihau'r capasiti gwelyau o 44 gwely i 36 gwely. Mae pob parth wedi lleihau nifer y gwelyau, sydd wedi caniatáu gofod ychwanegol rhwng y gwelyau er mwyn i weithdrefnau symud a thrin cael eu gwneud yn ddiogel a chydag urddas.

Mae rheolwr y ward hefyd wedi datblygu ardal bwrdd ymhob parth er mwyn i gleifion gwrdd a bwyta prydau bwyd. Bydd hyn yn gwella symudedd, yn hyrwyddo cymdeithasu ac yn lleihau unigedd. Mae'r staff hefyd yn darparu prynhawn ffilm, grwpiau sgwrsio a gwau, sesiynau bingo, a gwasanaeth eglwys wythnosol. Wrth fynd rhagddi, mae'r rheolwr yn bwriadu creu ardal deledu o fewn pob parth er mwyn i'r cleifion eistedd a chymdeithasu. Roeddem yn fodlon

bod y ward wedi'i hailgyflunio i ddarparu amgylchedd mwy diogel i gleifion yn dilyn model nyrsio mwy adsefydlol.

Roedd drysau'r ystafell ymolchi a'r toiled wedi'u paentio'n felyn fel y gallai cleifion (yn enwedig cleifion gyda nam gwybyddol) adnabod ardaloedd yr ystafell ymolchi. Hefyd, mae staff yn rhoi mat bwrdd coch i gleifion i nodi'r angen am gymorth i fwyta ac yfed. Mae'r camau gweithredu hyn eto yn sicrhau amgylchedd mwy diogel i gleifion.

Roedd y ciwbicl cleifion heb ffenestr allanol wedi'i ailwampio a bellach roedd ganddo ffenestr allan i'r coridor, a oedd yn gwneud yr ystafell yn awyrog ac yn fwy golau. Fodd bynnag, roedd y ffenestr ar gyfer golau dydd naturiol yn parhau yn uchel ac ni allai'r cleifion weld allan. Esboniodd rheolwr y ward fod ystyriaeth yn cael ei rhoi cyn derbyn cleifion i'r ystafell hon, gan gynnwys siarad â'r claf a pherthnasau pan oedd yn bosibl, i esbonio'r prinder ffenestri allanol.

O ran yr achos sicrwydd ar unwaith o ran bandiau adnabod ar arddyrnau cleifion, mae newidiadau bandiau arddwrn bob wythnos (ar ddydd Gwener) ar waith yn Ward y Gorllewin ac, ynghanol yr wythnos, mae gweithiwr cymorth gofal iechyd dynodedig yn gwirio bod y bandiau yn dal yn eu lle a bod y wybodaeth yn parhau i fod yn ddarllenadwy. Mae'r gwiriadau hyn yn cael eu cofnodi, a gwelsom y siartiau gwirio. Yn dilyn ein hadroddiad diwethaf, gwnaeth y rheolwr archwiliad a chanfod bod cleifion yn cael eu trosglwyddo o dro i dro o ysbytai cyffredinol y dosbarth lleol heb fandiau arddwrn. Cafodd hyn ei uwchgyfeirio i'r uwch-reolwyr priodol.

Mae gan reolwr Ward y Gorllewin system ar waith ar hyn o bryd o osod datrysiadau diogelwch cleifion Llywodraeth Cymru ar hysbysfwrdd yn ystafell y staff er mwyn i'r staff eu darllen. Gwnaeth trafodaeth bellach nodi wrth fynd rhagddi fod y rheolwr a'r dirprwy reolwr yn bwriadu anfon y bwletinau datrysiad i aelodau staff drwy gyfeiriadau e-bost personol y GIG. Bydd angen i staff dderbyn cyfrifoldeb a bod yn atebol am wirio a darllen y bwletinau hyn.

Ward y Gorllewin, Gorseinon, a Ward Llynfi, Maesteg:

Gwelsom fod y staff bellach yn defnyddio llythrennau cyntaf cleifion yn hytrach nag enwau llawn ar y Byrddau Cipolwg ar Ddiogelwch Cleifion mewn ymgais i gynnal cyfrinachedd, urddas a pharch. Fodd bynnag, mae defnyddio llythrennau cyntaf yn unig yn creu'r potensial am wall (mwy nag un claf â'r un llythrennau cyntaf). Gwnaethom felly drafod gorchuddio'r byrddau gyda bleinds er mwyn cynnal preifatrwydd pan nad oedd y staff yn bresennol a dychwelyd i ddefnyddio enwau llawn ar ôl hynny.

Gwnaethom ofyn i reolwr y ward ar Ward y Gorllewin ynglŷn â'r gofyniad i ddiweddaru gwybodaeth ar y wefan a chawsom ein sicrhau bod hyn wedi'i wneud gan y tîm TG y diwrnod ar ôl ein harolygiad ym mis Medi 2016.

Ward Llynfi, Maesteg:

Ar Ward Llynfi, gwnaethom ymweld â'r ystafell ddydd a gweld bod dau wely'n cael eu storio ar bwys cleifion a oedd yn eistedd yn gwylio teledu. Cawsom ein sicrhau mai datrysiad storio tymor byr oedd hwn tan y gallai'r gwelyau ddychwelyd i'r cilfannau. Gwnaethom sylwi hefyd tra oeddem yn yr ystafell mai un rheiddiadur yn unig o'r pedwar a oedd yn gweithio'n effeithiol ac roedd angen seliau newydd ar y drws tân er mwyn atal drafft rhag treiddio i'r ystafell.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen gorchuddio'r Byrddau Cipolwg ar Ddiogelwch Cleifion pan nad ydynt yn cael eu defnyddio er mwyn cynnal preifatrwydd, cyfrinach, urddas a pharch.

Mae angen i'r adran ystadau ddatrys y problemau gwresogi yn ystafell ddydd Ward Llynfi, Maesteg.

## Maeth a hydradu

Yn y ddau ysbyty, gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom nad oedd y siartiau maeth yn cael eu cydlofnodi'n gyson gan nyrsys a hyfforddwyd. Ar Ward y Gorllewin, roedd tri o'r pedwar y gwnaethom edrych arnynt wedi'u cydlofnodi, ond nid oedd yr un wedi'i chydlofnodi ar Ward Llynfi.

Gwnaethom hefyd ofyn i'r gweithwyr cymorth gofal iechyd a oedd cleifion yn gallu golchi eu dwylo cyn bwyta eu prydau bwyd a dywedwyd wrthym fod cleifion a oedd yn annibynnol yn cael cynnig clytiau, tra bo’r staff yn cynorthwyo'r rheini nad oeddent â’r un gallu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i reolwyr y wardiau yn y ddau ysbyty archwilio siartiau maeth a sicrhau bod nyrsys a hyfforddwyd yn goruchwylio cymeriant bwyd a hylif cleifion a nodwyd. Dangosir hyn drwy gydlofnodi'r siart.

## Rheoli meddyginiaethau

Ward y Gorllewin, Gorseinon:

Gwnaethom ofyn ynglŷn â chofnodi tymheredd ar oergelloedd meddyginiaeth a dangoswyd cofnodion yr ychydig fisoedd diwethaf i ni. Roeddent i gyd yn gywir ac o fewn yr amrediadau derbyniol. Dywedwyd wrthym y rhoddwyd oergell arall yn lle'r oergell a nodwyd gyda darlleniadau anghywir yn yr arolygiad diwethaf.

Ward y Gorllewin, Gorseinon, a Ward Llynfi, Maesteg:

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth yn y ddau ysbyty a chanfuom eu bod wedi'u cwblhau'n gywir. Gwnaeth Ward y Gorllewin ddangos yr archwiliadau misol a wnaed i ni, ond nid oedd y rhain ar gael ar y diwrnod ar Ward Llynfi. Gwnaethom sylwi hefyd nad yw Ward Llynfi yn defnyddio'r siart cofnod rhoi meddyginiaeth gyfredol ar gyfer Cymru gyfan.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Nid oedd unrhyw gleifion yn destun y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid[1] yn y naill ysbyty na'r llall ar ddiwrnodau'r arolygiad. Fodd bynnag, gwnaethom drafod sut roedd y cofnodion hyn yn cael eu storio a'u rheoli. Gwnaeth Ward y Gorllewin ddangos ffeil i ni a ddatblygwyd er mwyn storio'r holl ddogfennau yn ymwneud ag asesiadau unigol. Roedd hyn yn gwneud y gwaith o ddod o hyd i'r wybodaeth yn hawdd ac roedd modd sylwi pan oedd angen adnewyddu ceisiadau mewn pryd.

Nid oedd Ward Llynfi wedi datblygu system ac felly gwnaethom drafod y system a oedd yn cael ei defnyddio ar Ward y Gorllewin.

[1] Mae’r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn estyniad o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ac maent yn darparu fframwaith statudol ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau ar ran unigolion sydd heb y galluedd meddyliol i wneud hynny drostynt eu hunain.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i reolwr y ward ar Ward Llynfi ddatblygu system i sicrhau bod asesiadau a cheisiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn gyfredol ac ar gael yn hawdd.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Disgrifiwyd trefniadau gwahanol ar gyfer cymorth meddygol yn y ddau ysbyty. Ym Maesteg, roedd hyn yn cael ei ddarparu gan dîm o uwch-ymarferwyr nyrsio a chofrestrydd meddygol a oedd yn ymweld wedi'i leoli yn yr ysbyty cyffredinol dosbarth lleol. Mae hyn yn parhau i fod ar waith ac mae'n ymddangos fel pe bai'n gweithio'n effeithiol.

Yng Ngorseinon, roedd cymorth meddygol (dydd Llun i ddydd Gwener) yn cael ei ddarparu gan dîm meddygol a oedd yn cynnwys arbenigwr cysylltiol a meddyg graddfa staff. Hefyd roedd naw sesiwn yn cael eu darparu drwy bartneriaeth meddyg teulu ar gyfer y ward. Ar benwythnosau ac yn ystod cyfnodau y tu allan i oriau, roedd cymorth meddygol ar gael drwy gofrestrydd ar-alwad yn yr ysbyty cyffredinol dosbarth lleol. Roedd hyn ar sail ad hoc ac yn anodd ei reoli.

Dywedwyd wrthym gan reolwr y ward yng Ngorseinon fod y bwrdd iechyd wedi gwella'r gwaith cyflenwi meddygol ar gyfer yr ysbyty gydag ymweliadau wythnosol gan y clinigydd arweiniol, wedi'u hategu gan waith cyflenwi wythnosol rheolaidd ar y safle gan ddau feddyg arbenigol a gwaith cyflenwi y tu allan i oriau gan feddygon meddygol yr ysbyty cyffredinol dosbarth lleol. Mae'r meddygon teulu lleol yn parhau i gael mewnbwn i'r cyngor meddygol a gynigir i'r tîm staff.

Nodwyd o drafodaeth gyda rheolwr y ward ar gyfer Ward y Gorllewin fod nyrs â diddordeb mewn dilyn y cwrs uwch-ymarferydd nyrsio (sydd mewn swydd ym Maesteg ar hyn o bryd) gyda'r bwriad o ddychwelyd i'r ward. Byddai hyn o fudd ar gyfer dilyniant y gwaith cyflenwi meddygol a'r gofal cleifion o ganlyniad i hynny.

### Cadw cofnodion

Ar y cyfan, canfuom wahaniaeth sylweddol rhwng y gwelliannau a wnaed o ran y dogfennau gofal cleifion ar Ward y Gorllewin a Ward Llynfi.

Yn benodol, roedd Ward y Gorllewin bellach yn ailasesu cleifion o fewn 48 awr o'u derbyn ac yn rhoi asesiadau risg newydd ar waith (yn ôl y gofyn) yn seiliedig ar y model adsefydlu yn hytrach na'r model meddygol. Er bod y ward yn dal i ddefnyddio cynlluniau gofal generig y bwrdd iechyd, mae'r rhain yn cael eu personoli i ddiwallu anghenion a nodwyd ar gyfer pob claf. Yn ogystal, yn y parthau ward newydd, gydag un nyrs i bob parth a mwy o weithwyr cymorth gofal iechyd, roedd y nyrsys yn gallu gwerthuso'r cynlluniau gofal ac edrych ar y canlyniadau ar gyfer cleifion. Dangoswyd archwiliadau wythnosol a misol i ni i sicrhau bod cynllunio a dogfennau gofal yn gyfredol.

Yn anffodus, ni welsom unrhyw newidiadau neu welliannau i'r dogfennau ar Ward Llynfi. Wrth inni adolygu nodiadau un claf, canfuom fod bwlch sylweddol yn y cofnodion dyddiol. Daeth i'r amlwg fod y claf wedi'i drosglwyddo i'r ysbyty cyffredinol dosbarth lleol, wedi aros dros nos, ac yna wedi dychwelyd i'r ward y diwrnod canlynol, ond nid oedd hynny wedi cael ei gofnodi. Gwnaeth trafodaeth gyda'r dirprwy reolwr newydd gadarnhau bod angen gwneud gwaith er mwyn gwella ffeiliau cleifion, a oedd yn cynnwys defnyddio dogfennau mwy cyfredol ac effeithiol.

Roedd y ddwy ardal yn parhau i fod â chofnodion ar wahân ar gyfer staff nyrsio, staff meddygol ac aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaeth. Fodd bynnag, mae’r cofnodion yn Ward y Gorllewin bellach yn cael eu storio gyda'i gilydd ac ar Ward Llynfi gwnaeth y dirprwy reolwr newydd nodi (gyda chytundeb rheolwr y ward) y byddai tudalen flaen newydd ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld yn cael ei hychwanegu fel y gellid cael mynediad at unrhyw newidiadau/asesiadau yn hawdd.

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu storio’n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio i atal mynediad i bobl anawdurdodedig.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i reolwr y ward yn Ward Llynfi, Maesteg, adolygu ffeiliau gofal y cleifion, gan gynnwys asesiadau risg, cynlluniau gofal a’r gwerthusiad o'r gofal a ddarperir. Mae angen i'r wybodaeth a geir ynddynt fod yn berthnasol, wedi'i chwblhau mewn ffordd amserol, ac wedi'i hadolygu i sicrhau bod y gofal yn briodol ac effeithiol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwnaethom ganfod timau staff cyfeillgar a phroffesiynol a oedd yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

Cadarnhaodd y staff y gallent gael mynediad i hyfforddiant. Roedd cymorth staff wedi'i ddarparu fel y gellid cynnal arfarniadau staff.

Roedd strwythur rheoli gyda llinellau dirprwyaeth ac adrodd ar waith ar y ddwy ward. Fodd bynnag, roedd yr arddull arweinyddiaeth ar Ward y Gorllewin, lle roedd dau ddirprwy arloesol a brwdfrydig, yn ymddangos yn fwy effeithiol nag ar Ward Llynfi. Dylai hyn wella gyda recriwtio dau ddirprwy reolwr newydd i gefnogi rheolwr y ward ar Ward Llynfi.

Bu newidiadau i drefniadau uwch-reolwyr yn y gwasanaethau ysbytai cymunedol fel rhan o newidiadau rheoli ehangach o fewn y bwrdd iechyd. Bu hyn yn fanteisiol ar gyfer y ddau ysbyty ond arbennig yng Ngorseinon, lle y dywedir bod yr uwch-aelodau o staff yn fwy gweladwy. O ystyried y gwahaniaethau rhwng y ddau safle, gwnaethom gais yn yr adroddiad diwethaf fod y bwrdd iechyd yn adolygu'r trefniadau rheoli yn Ward y Gorllewin, Gorseinon, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol. Mae'r mater hwn wedi cael sylw ac rydym yn fodlon â'r canlyniad. Fodd bynnag, mae ein pryderon bellach yn amlycach yn Ward Llynfi, Maesteg, a dylid ailgyfeirio ffocws y cymorth gan yr uwch-reolwyr.

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

Ward y Gorllewin, Gorseinon:

- Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau rheoli yn Ward y Gorllewin a gwneud trefniadau addas i ddarparu cymorth rheoli ychwanegol fel y bo'n briodol.

Ward y Gorllewin, Gorseinon, a Ward Llynfi, Maesteg:

- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas i sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei roi i reolwyr y wardiau fel y bo modd cynnal arfarniadau staff.

## Y camau a ddywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau canlynol yn ei gynllun gwella:

Ward y Gorllewin, Gorseinon:

- Mae'r gwaith cyflenwi meddygol ar gyfer Ward y Gorllewin yn rhan o'r cynllun moderneiddio ar gyfer yr ysbyty. Mae sgyrsiau a datblygiadau ar waith er mwyn sicrhau bod anghenion meddygol ein cleifion yn cael eu blaenoriaethu. Mae gwaith cyflenwi meddygol cyfredol ar y ward bob diwrnod wedi'i drefnu gan feddygon teulu, arbenigwyr cysylltiol a meddygon graddfa staff.

Ward y Gorllewin, Gorseinon, a Ward Llynfi, Maesteg:

- Penodwyd nyrs arweiniol gyda chyfrifoldeb dros ysbytai Gorseinon a Maesteg. Mae arfarniadau staff wedi cael eu cynllunio ac mae rhaglen yn cael ei datblygu er mwyn sicrhau cyflawni cydymffurfiaeth.

## Yr hyn a ganfuom yn ystod yr arolygiad dilynol

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Ar adeg ein harolygiad, roedd strwythurau rheoli newydd ar waith ar gyfer y ddwy ward y gwnaethom ymweld â nhw. Roedd llinellau atebolrwydd, cyfrifoldeb ac adrodd wedi'u hymgorffori ar Ward y Gorllewin, ond roedd yn ddyddiau cynnar ar Ward Llynfi, gyda'r staff newydd ond wedi bod yn eu swyddi am ychydig wythnosau.

Eglurodd yr uwch-aelodau o staff fod trefniadau rheoli newydd ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol wedi'u cyflwyno ar ddiwedd 2016 ond roedd y rhain wedi bod yn agored i newid ym Maesteg yn ystod y chwe mis diwethaf. Fodd bynnag, roedd nyrs arweiniol newydd gyda chyfrifoldeb dros y ddau ysbyty cymunedol wedi'i phenodi o fewn yr un cyfnod amser ac roedd hyn wedi derbyn sylwadau cadarnhaol oddi wrth reolwyr a dirprwyon y wardiau.

Daeth i'r amlwg yn sgil ein trafodaethau â'r uwch-aelodau o staff fod darpariaeth y gwasanaeth yn y ddau ysbyty wedi newid ers i'r ddau ysbyty agor. Roedd y cleifion ag anghenion mwy cymhleth a pharhaus bellach yn derbyn gofal o fewn y ddwy ward. Roedd hyn yn golygu y bu angen newid y modelau darparu gofal.

Roedd hyn yn amlwg yn y ffordd roedd Ward y Gorllewin wedi ail-gyflunio’r ward i greu tri pharth. Y nod oedd symud cleifion ar lwybr tuag at eu rhyddhau drwy ymyrraeth adsefydlol.

Roedd maint a chynllun y wardiau, y nifer o gleifion y gellir eu lletya, a'r trefniadau ar gyfer cymorth clinigol i dimau'r wardiau yn amrywio'n sylweddol rhwng y ddwy ward y gwnaethom ymweld â nhw.

Er bod y strwythur rheoli yn debyg ar y ddwy ward ac roedd gan reolwyr y ddwy ward gyfrifoldebau tebyg o ran cymhlethdod y meysydd roeddent yn eu rheoli, roedd yr arddulliau arwain yn amrywio'n fawr. Yn benodol, roedd gan reolwr Ward y Gorllewin gyfrifoldeb dros y ward 36 gwely ac roedd wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r amgylchedd, y tîm staff a'r trefniadau gweithio, a oedd wedi cael effaith gadarnhaol ar ofal cleifion, tra bo gan reolwr Ward Llyfni gyfrifoldeb dros ward lai 22 gwely a oedd yn dal i fod â phryderon staffio, amgylcheddol ac arweinyddiaeth sylweddol.

O ystyried bod rheoli'r wardiau yn brif faes cyfrifoldeb ar gyfer y ddau reolwr ward unigol a bod Ward y Gorllewin wedi gwella'n sylweddol ac wedi cydgyfnerthu'r arweinyddiaeth, dylai’r bwrdd iechyd bellach gyflenwi cymorth mwy gweladwy gan uwch-aelodau o staff ar Ward Llyfni tra bo'r dirprwy reolwyr newydd yn cael eu sefydlu yn eu rolau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cymorth digonol gan uwch-reolwyr yn cael ei gynnig i Ward Llynfi, Maesteg, tra bo’r ddau ddirprwy reolwr ward newydd yn derbyn hyfforddiant sefydlu.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Roedd y timau staff a oedd yn gweithio ar y ddwy ward yn ymddangos fel rhai cyfeillgar ac eto'n broffesiynol ac yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd niferoedd staffio a'r cymysgedd o sgiliau'n ymddangos yn briodol er mwyn diwallu anghenion y cleifion ar y ddwy ward ar adeg ein harolygiad.

Roedd y ddau ysbyty wedi bod yn llwyddiannus o ran recriwtio staff ar bob graddfa a bydd hyn yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer gofal cleifion.

Gwnaeth rheolwr Ward y Gorllewin gadarnhau bod system ar gyfer cynnal arfarniad blynyddol i'r staff. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd gan reolwr y ward yn dangos bod yr holl staff wedi derbyn arfarniadau blynyddol o'u gwaith a gwelsom fod dyddiadau wedi'u hamserlennu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, nid oedd yr holl staff wedi derbyn arfarniad ar gyfer eu gwaith o fewn y flwyddyn ddiwethaf ar Ward Llynfi. Roedd y rhesymau a roddwyd (gan staff yn sgil absenoldeb rheolwr y ward) yn cynnwys pwysau gwaith yn sgil swyddi gwag a salwch. Dylai hyn gael ei gywiro wrth recriwtio dau ddirprwy reolwr ward newydd.

Gwnaeth y staff yn y ddau ysbyty nodi bod mynediad at hyfforddiant wedi gwella. Ar Ward y Gorllewin, dywedwyd wrthym eu bod bellach yn cynnal prynhawniau addysgu ar ddydd Mercher tra bo'r cleifion yn gwylio ffilm. Roedd y sesiynau hyn yn cwmpasu unrhyw ddysgu o ddigwyddiadau neu destunau a nodwyd a fyddai o fudd i ofal cleifion. Ni allem gadarnhau bod y sesiynau addysgu hyn yn cael eu cynnal ar Ward Llynfi.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae’n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C:  Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall arolygiadau dilynol fod gyda rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd gan fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y ffordd y maent yn gweithredu fel rheol. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw gweld pa welliannau y mae'r gwasanaeth wedi eu gwneud ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar y meysydd penodol i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf. Golyga hyn y byddwn dim ond yn canolbwyntio ar y Safonau Iechyd a Gofal 2015 sy'n berthnasol i'r meysydd hyn.

Byddwn yn ystyried agweddau perthnasol ar y canlynol yn ystod ein harolygiadau dilynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae adborth yn cael ei ddarparu ar gyfer cynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol. Byddwn hefyd yn amlygu unrhyw feysydd y mae angen eu gwella o hyd.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw broblemau ar yr achlysur hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Ward Llynfi, Ysbyty Maesteg, a Ward y Gorllewin, Ysbyty Gorseinon

## Dyddiad yr arolygiad: 27 a 28 Chwefror 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw broblemau ar yr achlysur hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Ward Llynfi, Ysbyty Maesteg, a Ward y Gorllewin, Ysbyty Gorseinon

## Dyddiad yr arolygiad: 27 a 28 Chwefror 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw welliannau ar yr achlysur hwn. | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae angen gorchuddio Byrddau Cipolwg ar Ddiogelwch Cleifion pan nad ydynt yn cael eu defnyddio er mwyn cynnal preifatrwydd, cyfrinachedd, urddas a pharch.<br>Mae angen i'r adran ystadau gywiro'r problemau gwresogi yn yr ystafell ddydd ar Ward Llynfi, | 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch | Bydd bleinds yn cael eu gosod ar yr holl Fyrddau Cipolwg ar Ddiogelwch Cleifion. Cysylltwyd â'r adran ystadau eisoes i drefnu prynu a gosod y rhain.<br>Cysylltir â'r adran ystadau a bydd y problemau gwresogi a nodwyd yn yr ystafell ddydd ar Ward Llynfi yn cael eu | Nyrs arwain, ysbytai cymunedol<br>Nyrs arwain, ysbytai cymunedol | 10 Awst 2018<br>10 Awst 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Maesteg. | | cywiro. | | |
| Mae angen i reolwyr y wardiau yn y ddau ysbyty archwilio'r siartiau maeth a sicrhau bod nyrsys a hyfforddwyd yn goruchwylio cymeriant bwyd a hylifau cleifion a nodwyd. | 2.5 Maetheg a hydradiad | Mae hyfforddiant bellach yn cael ei gyflwyno, ar sail un-i-un, yn y ddau ysbyty er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, gyda'r nyrs gofrestredig yn llofnodi'r siart maeth.<br><br>Mae archwiliadau'n cael eu cynnal bob mis er mwyn monitro hyn. | Nyrs arwain, ysbytai cymunedol | 14 Mai 2018 |
| Mae angen i reolwr y ward ar Ward Llyfni ddatblygu system i sicrhau bod asesiadau a cheisiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn gyfredol ac ar gael yn hawdd. | 2.7 Diogelu plant ac oedolion mewn perygl | Caiff y gronfa ddata a ddefnyddir yng Ngorseinon ei rhoi ar waith ar Ward Llynfi. | Nyrs arwain, ysbytai cymunedol | 14 Mai 2018 |
| Mae angen i reolwr y ward yn Ward Llynfi, Maesteg, adolygu'r ffeiliau gofal cleifion, gan gynnwys asesiadau risg, cynlluniau gofal a’r gwerthusiad o'r gofal a ddarperir. Mae angen i'r wybodaeth a geir ynddynt fod yn berthnasol, wedi'i chwblhau mewn ffordd amserol, a'i hadolygu i sicrhau bod y gofal yn briodol ac effeithiol. | 3.5 Cadw cofnodion | Mae staff yn derbyn hyfforddiant un-i-un ar hyn o bryd sy'n cael ei gyflwyno gan reolwr y ward a’r dirprwyon. Caiff hyn ei archwilio bob mis er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. | Nyrs arwain, ysbytai cymunedol | 10 Awst 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cymorth digonol gan uwch-reolwyr yn cael ei gynnig i Ward Llynfi, Maesteg, tra bo'r ddau ddirprwy reolwr newydd yn derbyn hyfforddiant sefydlu. | Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd | Mae'r nyrs arwain wedi'i lleoli ym Maesteg rhwng un a dau ddiwrnod yr wythnos ac mae bob amser ar gael dros y ffôn rhwng y diwrnodau hyn. Ar hyn o bryd, mae'n cyfarfod â rheolwr y ward a'r dirprwyon bob wythnos er mwyn datblygu ei sgiliau arwain. | Nyrs arwain, ysbytai cymunedol | 10 Awst 2018 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):Jason Crowl**

**Swydd: Cyfarwyddwr Nyrsio’r Uned, Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol**

**Dyddiad: 9 Ebrill 2018**